**Y Pwyllgor Cyllid**

—

**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Darren Williams
Swyddog Cenedlaethol Cymru a De-orllewin
Lloegr

28 Ebrill 2022

Defnydd cyrff sector cyhoeddus Cymru o ddulliau 'diswyddo ac ailgyflogi'

Annwyl Darren,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 25 Ebrill mewn perthynas â phryderon Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) ynghylch defnydd posibl Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ddulliau 'diswyddo ac ailgyflogi'.

Fel y'i crybwyllir yn eich llythyr, y Pwyllgor Cyllid sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ddau gorff cyhoeddus hyn. Mae'r Pwyllgor yn ystyried trefniadau goruchwylio'r cyrff hyn ochr yn ochr â'i waith craffu ar eu cyllidebau yn yr hydref.

Gan hynny, byddaf yn rhannu eich pryderon ag aelodau'r Pwyllgor a byddwn yn mynd ar drywydd y materion hyn yn y gwaith craffu a gynhelir yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'r sesiynau'n debygol o ddigwydd ym mis Hydref/Tachwedd a gallwch weld agendâu pan fyddant ar gael ar wefan y Pwyllgor. Gallwch hefyd gysylltu ag Owain Roberts, y Clerc, ar 0300 200 6388.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.